

RNIB

Cymru

Golwg gwahanol
See differently

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg

Cofnodion: 16 Tachwedd 2020

Cyfarfod rhithwir

12.15pm hyd 1.15pm

Yn bresennol:

Cadeirydd: Dr Dai Lloyd AS

Yn bresennol:

Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)

Ansley Workman, RNIB

Nathan Owen, RNIB

Carole Morgan-Jones, RNIB

Ffion Lewis, RNIB

John Dixon, RNIB

Andrea Gordon, Cŵn Tywys

Deborah Rees, Cŵn Tywys

Jonathan Mudd, Cŵn Tywys

Peter Jones, Cŵn Tywys

Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion

Philip Westcott, Gwirfoddolwr RNIB

Andy Fisher, Focal Point UK

Anna Morgan, defnyddiwr gwasanaeth adsefydlu Vision

Bablin Molik, Sight Cymru

Marianne Barwise,

Brian Hobart, defnyddiwr gwasanaeth adsefydlu Vision

Rhiannon Clarke, Llywodraeth Cymru

Craige Wilson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Eryl Williams, Cymdeithas Ryngwladol Glawcoma
Hayley Dixon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rebecca Howell, Cyngor Sir Torfaen
Joy Smith, Vision Support
Karen Davies, Vision Support
Karen Roderick, Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru
Kathryn Greenwood, Uwch ROVI, Pen-y-bont ar Ogwr
Kirsty Bryan, ROVI, Powys
Laura Edwards, Cyngor Sir Powys
Gwenda Lewis, Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf
Christine Rogers, Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf
Sandy Davies, Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr
Joanne Thomas, Cyngor Bro Morgannwg
Nicola Davies-Job, Coleg Nyrsio Brenhinol
Ramona Murray, Cyngor Sir Conwy
Matthew Xerri, Llywodraeth Cymru (ar ran Albert Heaney)

Ymddiheuriadau:

Rhun ap Iorwerth AS
David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig, Llywodraeth Cymru
Olivia Shorrocks, Llywodraeth Cymru
Sarah O'Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru
Mike Austin, Cadeirydd Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmig Cymru
Sarah Hughes, SENCOM
Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru
Karen Phillips, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Sali Davies, Optometreg Cymru
Callum Hughes, Cydffederasiwn y GIG
Ian Moran, Fforwm Swyddogion Adsefydlu
Matt O'Grady, Y Gymdeithas Strôc
Eileen Schott, cynrychiolydd cleifion
Tafsila Khan, gwirfoddolwr RNIB
Hayley Dixon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Michelle Jones, Sight Life
Anita Davies, Sight Life
Esther Weller, Sight Cymru
Peter Lewis, Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio
Sharon Beatty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rachel Jones, astudiaeth achos adsefydlu Vision

1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i'r cyfarfod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, diweddariadau ac ystyried ymateb y Gweinidog

Gwnaeth Nathan Owen grynhoi'r cofnodion yn fyr ac ymateb y Gweinidog o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2020. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Nodwyd bod y Grŵp wedi derbyn ymateb i'w gohebiaeth i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ond nid gan y Gweinidog Addysg na Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Bydd yr ymatebion yn cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod nesaf.

3. Prinder Swyddogion Adsefydlu ar gyfer y rhai â Nam ar eu Golwg yng Nghymru a'n gofynion wedi'i gyflwyno gan Owen Williams, Cyngor y Deillion Cymru a Sandy Davies, Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru (WROF)

Agorodd Owen trwy gyflwyno'r papur cysylltiedig ar ran Wales Vision Forum, sy'n crynhoi'r ddarpariaeth adsefydlu golwg ar hyn o bryd yng Nghymru. Nodwyd y bu lleihad cyson yn y Swyddogion Adsefydlu ar gyfer y rhai â Nam ar eu Golwg (ROVIs) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gan fod disgwyl i nifer y bobl sy'n byw gyda nam ar y golwg gynyddu 32 y cant erbyn 2030, mae'n hanfodol bod gan Gymru weithlu ROVI sydd â digon o adnoddau er mwyn ateb y galw.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlwg yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl, gan gynnwys lleihau effeithiau namau.

Rôl yr ROVI yw magu hyder, rhoi cymorth emosiynol, ailadeiladu sgiliau coll, dysgu sgiliau newydd, cynnal a hyrwyddo annibyniaeth a dewis. Mae'r cymorth hwn yn galluogi pobl sydd â nam ar eu golwg i fyw'n ddiogel a chyfrannu at gymdeithas fel dinasyddion gweithgar.

Nodwyd bod ymyrraeth gynnar gan y gwasanaeth hwn yn gwbl hanfodol i leihau'r angen am gefnogaeth barhaus bellach gan wasanaethau sydd eisoes yn orlawn. Mae ymyrraeth gynnar hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, sy'n flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd Owen at adroddiad yn 2018 gan Fforwm Gweledigaeth Cymru, "[State of the Nation Report: Service to Adults with Sight Loss in Wales](#)", a oedd yn dangos loteri cod post o ran gwasanaethau adsefydlu ledled Cymru. Ers i'r adroddiad hwnnw gael ei lunio, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Dim ond 8 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cwrdd â'r safonau gofynnol a osodwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (ADSS) o un ROVI fesul 70,000 o'r boblogaeth (cyf. atodiad 1 Gweithlu ROVI yng Nghymru).

Mewn rhai ardaloedd, mae pobl yn aros dros 12 mis i weld ROVI. Ond pan gyrhaeddir y safon ofynnol, mae pobl yn cael eu gweld yn llawer cynt. Roedd llwyth o bobl yn dal i aros am gefnogaeth ROVI a chyda dechrau pandemig COVID-19, mae hyn wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd. Mae'r rhesymau dros y nifer o bobl sy'n dal i aros yn gymhleth ond maent yn cynnwys: adsefydlu golwg ddim yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth mewn rhai awdurdodau lleol; diffyg eglurder ynghylch llwybrau atgyfeirio; cost hyfforddi ROVIs newydd (tua £12,000 yn aml) yn aml yn cael ei ystyried yn afresymol a hyfforddiant ond ar gael mewn 1 sefydliad yn y DU; gall y broses o gyhoeddi tystysgrif nam ar eu golwg fod yn araf ac yn aml nid yw unigolion yn ymwybodol o'u hawliau.

Gwnaeth Owen achos economaidd cryf hefyd dros gael mwy o ROVIs. Gan gyfeirio at ymchwil a gynhaliwyd gan Sight for Surrey, nododd Owen arbediad cyfartalog o tua £4,500 fesul atgyfeiriad o ganlyniad i gostau sy'n cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu gohirio oherwydd ymyrraeth ROVI effeithiol.

Fel sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn y sector colli golwg, rydym i gyd yn cytuno ynghylch pwysigrwydd hanfodol rôl yr ROVI.

Rydym yn galw am well cynllunio a buddsoddi yn y gweithlu i sicrhau bod gan Gymru y nifer briodol o ROVIs gweithredol a bod pob awdurdod lleol yn cwrdd â safonau gofynnol ADSS.

Bydd angen mwy na'r isafswm safonau 1 fesul 70,000 ar gyfer rhai ardaloedd mwy gwledig gan fod llawer o'u hamser yn cael ei dreulio yn teithio rhwng apwyntiadau. Bydd angen ystyried y ffactorau hyn wrth gynllunio gweithlu yn y dyfodol gan bob awdurdod lleol.

Rydym hefyd yn galw ar i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio cynllun gweithlu ar gyfer y cyfnod 3, 5 a 10 mlynedd nesaf ac mae

Cyngor y Deillion Cymru wedi cael rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a WROF i gyflawni'r gwaith hwn.

Gorffennodd Owen trwy grynhai argymhellion Wales Vision Forum:

1. Dylai pob awdurdod lleol gwrdd â safonau gofynnol ADSS o 1 ROVI fesul 70,000 o'r boblogaeth ac yn ymrwymo i fuddsoddi mewn hyfforddi ROVIs erbyn Gorffennaf 2021;
2. Dylai pob awdurdod lleol sefydlu llwybr atgyfeirio clir i ac o Wasanaeth Golwg Gwan Cymru;
3. Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod pob atgyfeiriad newydd yn derbyn asesiad llawn o angen gan ROVI cymwys.

Tynnodd Owen sylw'r Grŵp at Atodiad 2, sy'n cynnwys astudiaethau achos gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gan ddangos pwysigrwydd ac effeithiolrwydd ymyriadau ROVI.

Bydd Wales Vision Forum yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol fel rhan o'r ymgyrch hon i hyrwyddo'r gweithlu pwysig hwn ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol fel y gall pobl â nam ar eu golwg barhau i elwa o'r gwasanaeth hwn.

Yna siaradodd Sandy Davies, ROVI o Gyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac Is-gadeirydd WROF am fodel arfer da a gwaith ei thîm.

Dechreuodd Sandy trwy nodi bod angen mwy o gydnabyddiaeth gan weithwyr proffesiynol lechyd a Gofal Cymdeithasol ar rôl yr ROVI.

Roedd Cymru lachach yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol lle gall pawb yng Nghymru aros yn weithgar ac yn annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain, cyhyd ag y bo modd.¹

Y ffordd mae golwg yn cael ei wireddu i bobl â nam ar eu golwg drwy ymyrraeth ROVI prydlon. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rhaid i'r gwaith cynllunio gweithlu tymor hir ar gyfer y gweithlu arbenigol ROVI fod yn flaenoriaeth.

ROVIs yw'r unig arbenigwr cymwys yn y gymuned sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi colli eu golwg a bydd y buddsoddiad hwn yn atal cost

¹ Llywodraeth Cymru (2018), [Cymru lachach: Ein Cynllun lechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

sylweddol i wasanaethau iechyd a gofal ac yn grymuso pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Yna nododd Sandy fod ymyrraeth adsefydlu yn cyd-fynd â nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn yr ystyr ei fod yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a lles. Disgrifiodd enghraifft o arfer da o Ben-y-bont ar Ogwr. Y Tîm Adnoddau Cymunedol (CRT), a gwasanaeth integredig lle mae gweithwyr iechyd proffesiynol a gofal cymdeithasol yn gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol i ddarparu cefnogaeth gyfannol, integredig i gyflawni'r canlyniad gorau i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae ROVIs Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal ymweliadau ar y cyd ac yn gweithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill yn y CRT.

Trwy'r broses atgyfeirio amserol a reolir gan CRT, gall defnyddwyr gwasanaeth gael gafael ar gymorth therapiwtig, ail-alluogi a gofal cymdeithasol yn eu cartref gan ystod o weithwyr proffesiynol gan gynnwys Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Adsefydlu, Deietegwyr, Lleferydd, Therapyddion Iaith a Fferyllwyr. Gallant hefyd gael mynediad at weithwyr clinigol proffesiynol eraill fel Meddygon Ymgynghorol a Nyrsys sy'n darparu triniaeth yn y gymuned, gan osgoi derbyniadau i'r ysbyty a phecynnau gofal costus.

Yn gynharach eleni, sylwodd y CRT, o'r 3 ROVI yn yr awdurdod lleol, roedd 2 i fod i ymddeol yn y dyfodol agos. Mae'r cyngor wedi cydnabod hyn ac wedi sicrhau secondiad i un o'u Cynorthwywyr Synhwyraidd ddechrau ar ei hyfforddiant i ddod yn ROVI cymwys.

Gorffennodd Sandy trwy ailddatgan bod yr arbedion a ddarperir gan ROVIs trwy atal yr angen am fynd i'r ysbyty a gofal pellach yn llawer mwy na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth. Bydd buddsoddiad priodol nawr nid yn unig yn arbed arian ond hefyd yn cael effaith enfawr ar bobl â nam ar eu golwg. Os yw'r gweithlu'n parhau i ddirywio ac nad yw buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddyrannu, yna byddwn yn methu pobl â nam ar eu golwg ledled Cymru.

Nododd Sandy ein bod eisoes mewn cyflwr critigol, ar ôl gostwng o 12 awdurdod lleol yn cwrdd â safonau gofynnol ADSS yn 2018, i ddim ond 8 yn 2020. Mae diffyg adnoddau sylweddol yn ein tair dinas fwyaf, fel y gellir gweld yn y tabl sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

Nododd Owen y bydd Wales Vision Forum yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch y gwaith hwn.

4. Effaith astudiaethau achos defnyddwyr gwasanaeth adsefydlu golwg wedi'i gyflwyno gan Rachel Jones (trwy Owen Williams), Anna Morgan a Brian Hobart

Cyflwynodd Owen animeiddiad Rachel Jones a luniwyd gyda'r tîm Colli Synhwyraidd yng Nghyngor Sir Powys. Chwaraeodd Nathan yr animeiddiad ond nid oedd sain yn gweithio felly darllenodd Owen yr is-deitlau. Bydd Nathan yn anfon yr animeiddiad i'r mynychwyr gyda'r cofnodion a'r llythyrau.

Yna darllenodd Owen ddatganiad ar ran Rachel, a oedd yn anffodus yn methu â bod yn y cyfarfod ar fyr rybudd. Ganwyd Rachel, o Drefyclo ym Mhowys, gyda Retinitis Pigmentosa ac ni chafodd unrhyw ymyrraeth na chefnogaeth ymarferol trwy gydol ei phlentyndod a chafodd drafferth i dderbyn ei sefyllfa.

Yng nghanol ei 20au, profodd Rachel ostyngiad yn ei golwg a oedd yn ei gwneud yn llai hyderus ac annibynnol ac yn 33 oedd wedi ei chofrestru â nam difrifol ar ei golwg. Fe wnaeth cofrestru newid ei bywyd. Roedd yn golygu bod yn rhaid iddi wynebu ei cholled golwg ac addasu, sef rhywbeth yr oedd wedi bod yn amharod i'w wneud hyd at y pwynt hwn. Canmolodd Rachel ei Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid (ECLO) a ROVI am ei helpu 'y tu hwnt i eiriau.'

Disgrifiodd Rachel ei ROVI, Laura, fel person gofalgarn, ymroddedig, tosturiol, pwylllog a gwybodus. Mae Rachel yn teimlo'n ffodus iddi gael y profiad a wnaeth gyda thîm Colli Synhwyraidd Powys, a oedd yn gallu rhoi cymorth mewn modd amserol, oherwydd bod ganddynt nifer ddigonol o ROVIs ar waith.

Fe wnaeth ROVI Rachel ddysgu sgiliau byw bob dydd iddi, sut i gwblhau tasgau cartref, symudedd a hyfforddiant gyda ffon hir a mynediad at gymorth ariannol. Cyfeiriodd ei ROVI hi hefyd at Gofal a Thrwsio ar gyfer addasiadau cartref a'i chyfeirio at amrywiaeth o glybiau a grwpiau cymdeithasol, gan gynnwys clwb Braille, crefftiau a chyfleoedd gwirfoddoli gydag RNIB a'i chymdeithas leol.

Gorffennodd Rachel trwy ddweud bod llawer o'i chyfyngiadau yn fwy meddyliol na chorfforol ac roedd y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarparwyd gan yr ROVI yn ei helpu i oresgyn yr heriau hyn. Erbyn

hyn, mae Rachel yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn hyderus ac yn gallu dod o hyd i'w ffordd yn annibynnol.

Mewn gair, roedd cefnogaeth ROVI yn rhoi hyder iddi y gallai wneud pethau drosti ei hun a'i galluogi i fwynhau bywyd. Roedd yr hyder hwn yn rhoi annibyniaeth i mi. Cofrestru a chael cymorth oedd y peth gorau a ddigwyddodd iddi erioed ac mae wedi ei gwneud hi'n berson gwahanol. O gael profiad mor gadarnhaol, mae'n boen meddwl i Rachel nad yw eraill mor ffodus a bod niferoedd ROVI yn gostwng. Mae'n hawdd gweld defnyddwyr gwasanaeth fel ystadegau neu gostau ar gyllideb ond rhaid cofio bod gwaith ROVIs yn cael effaith ddwys a pharhaol ar y rhai y maent yn eu helpu ac yn eu helpu i fod yn aelodau gweithgar o gymdeithas.

Yna cyflwynodd Owen Anna Morgan o Ben-y-bont ar Ogwr i siarad am ei phrofiadau. Dechreuodd Anna trwy ddisgrifio ei hun fel person hollol annibynnol a balch. Dioddefodd Strôc Isgemig a effeithiodd ar y golwg ymylol yn ei dwy lygad.

Yna rhoddodd Anna adroddiad emosiynol o'i phroses adsefydlu a'r effaith enfawr a gafodd y digwyddiad hwn ar ei bywyd. Yn dilyn ei strôc, roedd Anna yn teimlo'n hynod ynysig, yn ddig ac yn rhwystredig, yn enwedig gan nad oedd hi'n methu gyrru ac wedi colli annibyniaeth yn sgil hynny.

Disgrifiodd Anna'r broses o ddysgu byw yn ei thŷ ei hun eto a nifer y damweiniau a'r anafiadau a gafodd oherwydd iddi golli ei golwg. Roedd hi'n amharod iawn i fynd allan ac ar yr un achlysur y gwnaeth hi, nid oedd hi'n gallu adnabod rhywun a siaradodd â hi ar y stryd. Cafodd hyn effaith negyddol iawn ar ei hiechyd meddwl, yn enwedig o ystyried y ffaith nad oedd hi'n gallu cael cefnogaeth briodol gan y rhai o'i chwmpas, nad oedd yn deall yr hyn yr oedd hi'n mynd drwyddo.

Siaradodd Anna yn ingol am ei theimladau hunanladdol yr oedd hi'n eu teimlo ychydig cyn cael ei chyflwyno i ROVIs neu 'angylion y ddaear' fel yr oedd hi'n eu disgrifio nhw. Roedd y broses dderbyn i ddod i delerau â'r ffaith bod angen cefnogaeth yn heriol, ond gyda chymorth y tîm colli synhwyraidd yng Nghyngor Pen-y-bont ar Ogwr, penderfynodd o'r diwedd gofrestru ar gyfer Tystysgrif Nam Gweledol (CVI) ar ôl gohirio hyn am hir amser.

Fe wnaeth ROVI Anna osod goleuadau newydd ar ei thŷ a oedd yn gwella ei golwg yn fawr, ac er bod y cymorth corfforol fel hyfforddiant

gyda ffon wen a gyda PIP yn ddefnyddiol iawn, esboniodd Anna pa mor amhrisiadwy yw cael cymorth emosynol gan rywun sy'n deall. Mynegodd Anna ddieter at y ffaith nad yw eraill yn gallu cael gafael ar gefnogaeth ROVI oherwydd diffyg adnoddau oherwydd ei fod wedi cael effaith mor enfawr ar ei theimladau o ynysu cymdeithasol. Disgrifiodd hyn fel "rhoi pris ar ei bywyd." Fe wnaeth cymorth ROVI roi grym i Anna i adfer ei bywyd ac mae hi bellach yn teimlo fel y person yr oedd hi cyn y strôc.

Gorffennodd Anna trwy ddweud bod ROVIs yn achub bywydau.

Dywedodd Bablin Molik wrth y grŵp fod Mike Boardman, a oedd i fod i siarad yn y cyfarfod hwn, yn anffodus yn sâl. Darllenodd Bablin ychydig eiriau ar ran Mike. Galwodd Mike am gefnogaeth ledled Cymru ar gyfer gwasanaethau adsefydlu golwg, fel nad oes neb yn cwmpo trwy'r bylchau ac yn methu â chael gafael ar y gwasanaeth hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, heb gefnogaeth deuluol. Diolchodd Mike i dîm ROVI am ei helpu i ddod i delerau â cholli golwg, adennill ei annibyniaeth a'i alluogi i barhau i weithio.

Diolchodd Owen i Anna a Bablin ac yna gofynnodd i Brian Hobart o Sir Gaerfyrddin siarad.

Disgrifiodd Brian ei golled golwg, a brofodd pan oedd yn 60 oed ar ôl deffro ar ôl i nerf canolog fyrstio yn ei lygad. Treuliodd chwe wythnos yn aros i weld Ymgynghorydd a dywedodd mai hwnnw oedd profiad mwyaf brawychus ei fywyd.

Er nad oedd yn gallu achub ei olwg, cyfeiriodd yr ysbyty ef at y gwasanaethau cymdeithasol i gofrestru CVI a chael gafael ar gymorth ROVI, a ddisgrifiodd fel "dechrau fy lwc yn gwella o lawer." Chwe wythnos yn ddiweddarach, derbyniodd Brian ei gefnogaeth ROVI, a ddisgrifiodd fel "...system fendigedig. Mae'n gweithio ar bob lefel bosibl. O'r pwynt cyswllt cyntaf, i hyfforddiant a chymorth a chyngor parhaus, gyda diogelwch cyswllt hysbys a pharhaol."

Fe wnaeth ROVI Brian ei ddysgu i ddefnyddio cymhorthion a thechnoleg i wella ei fywyd. Esboniodd hefyd y broses o hyfforddi gyda ffon wen, a fyddai'n amhosibl heb hyfforddiant arbenigol gan ROVI.

Fe wnaeth ei ROVI ei argyhoeddi, dros gyfnod o flwyddyn, i ymuno â chlybiau â nam ar eu golwg ac mae'n dal i fod yn aelod gweithgar. Mae

bellach yn aelod gweithgar a phrysur o'r gymdeithas unwaith eto, sy'n gwirfoddoli ac ers hynny mae wedi cychwyn ei glwb bowls VI ei hun.

Gorffennodd Brian trwy ddweud nad yw bellach yn byw mewn ofn, ei fod wedi ailafael yn ei hunan-barch, ei fod yn annibynnol ac yn hunandibynnol a hynny gyda diolch i'r gwasanaeth adsefydlu golwg. Galwodd am gynnydd yn nifer y ROVIs, cyflwyno cynllun prentisiaeth ac ecwiti cyflog gyda staff gofal cymdeithasol eraill, gan adlewyrchu lefel y cymwysterau sydd eu hangen. Gall, ac fe ddylai'r, system weithio ym mhob rhan o Gymru.

Yna diolchodd Dai i'r holl gyflwynwyr am eu cyfraniadau gan resynu nad oedd diffyg amser i gael mwy o drafod. Ymrwymodd Dai i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a Sarah Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru.

5. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Tynnodd Nathan sylw'r Grŵp at yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol a anfonwyd cyn y cyfarfod hwn. Cytunodd y Grŵp ar hyn fel cofnod.

Gwnaeth Nathan enwebu Dai i barhau yn rôl y Cadeirydd, a chafodd hynny ei eilio gan Anna Morgan ac Owen Williams.

Fe wnaeth Dai enwebu Nathan i barhau fel Ysgrifennydd, a gytunwyd gan y Grŵp.

6. Unrhyw fater arall

Rhoddodd Dai gyfle i bawb roi sylwadau i orffen. Ailddatganodd Joy Smith bwynt Anna Morgan ynghylch rhoi pris ar fywydau pobl ac ariannu gwasanaethau adsefydlu. Dywedodd Joy, os buddsoddir yn briodol i gefnogi pobl pan fyddant yn colli eu golwg, eu bod yn llawer mwy tebygol o allu parhau i gyfrannu at gymdeithas a pheidio â dibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gorffennodd Owen trwy nodi y bydd Wales Vision Forum yn parhau i adrodd i'r Grŵp ar hynt yr ymgyrch hon i gael mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu ROVI.

Cytunwyd y bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Daeth Dai â'r cyfarfod i ben am 1:15pm.

Diwedd y ddogfen.